



Cyngor Sir Powys
Neuadd Y Sir
Llandrindod Wells
Powys
LD1 5LG

Dyddiad: 17 Rhagfyr 2020

Annwyl Rieni / Gofalwyr,

Wrth i i ni ddod at ddiwedd y tymor a diwedd 2020, hoffwn i ddiolch i chi mewn blwyddyn sydd wedi bod yn hynod o anodd a heriol.

Mae'r naw mis diwethaf wedi rhoi straen ychwanegol ar bawb, ond yn enwedig rhieni a gofalwyr sydd wedi gorfod addasu wrth i'r pandemig effeithio ar ysgolion ledled y sir.

Fodd bynnag, bydd Tymor y Gwanwyn yma'n fuan felly hoffem ni'ch hysbysu ynghylch ein cynlluniau ar gyfer dysgwyr yn dychwelyd i'w lleoliadau ar ôl gwyliau'r Nadolig.

Yn dilyn trafodaethau gyda phenaethiaid, swyddogion y blynyddoedd cynnar ac undebau llafar, cytunwyd y bydd dydd Llun 4 Ionawr a dydd Mawrth 5 Ionawr yn ddyddiau i staff yn unig. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ysgolion a lleoliadau baratoi ar gyfer dychweliad yr holl ddisgyblion ar ddydd Mercher 6 Ionawr.

Bydd dydd Llun 4 Ionawr a dydd Mawrth 5 Ionawr yn ddyddiau cynllunio a pharatoi. Bydd y dyddiau hyn i staff yn unig a byddan nhw'n rhoi cyfle i ysgolion a lleoliadau'r blynyddoedd cynnar arolygu eu hasesiadau, eu prosesau a'u systemau risg i sicrhau y gallan nhw groesawu dysgwyr yn ôl yn ddiogel.

Bydd pob lleoliad ar agor i ddysgwyr o ddydd Mercher 6 Ionawr.

Rhaid i mi bwysleisio ein bod yn dal yng nghanol y pandemig. Dylai rhieni barhau i wylïo rhag coronafeirws a chadw plant sâl i ffwrdd o'r ysgol a lleoliadau'r blynyddoedd cynnar, hyd yn oed os yw'r symptomau i weld yn ysgafn.

Rhaid i'r dychwelyd ym mis Ionawr fod mor ddiogel ag y bo modd i'n dysgwyr a'n staff. Mae'r cyfyngiadau a ddaw i rym ar ddydd Llun 28 Rhagfyr ledled Cymru wedi eu cynllunio i wneud y wlad yn fwy diogel.

Rwy'n erfyn ar bob teulu i ddilyn y rheolau Coronafeirws diweddaraf fel y gall ein hysgolion fwrw iddi ddydd Mercher 6 Ionawr 2021 a bod mor ddiogel ag y bo modd i bawb.

Yn agored a blaengar - Open and enterprising

www.powys.gov.uk



Yn olaf, hoffwn i ddymuno gwyliau diogel a hapus dros y Nadolig ac rwy'n edrych ymlaen at weld plant a phobl ifanc yn ôl mewn ysgolion a lleoliadau'r blynyddoedd cynnar ym mis Ionawr.

Yr eiddoch yn gywir

Y Cynghorydd Phyl Davies
Aelod y Cabinet ar faterion Addysg ac Eiddo

Geraint Rees
Arweinydd Strategol Addysg

Lynette Lovell
Prif Swyddog Addysg Dros Dro

Yn agored a blaengar - Open and enterprising

www.powys.gov.uk